**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 9 Mai, 2024**

**Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**<u>Presennol:</u>**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Catherine Hughes

Dafydd Ll Williams

Wynne Davies

Gareth Roberts

Tesni Jones

Einir Lewis

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Rhys Jones (Is-Gadeirydd), Phil Roberts, Nia M Jones a'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

**<u>Ail arwyddo cofnodion 14/03/24</u>**
Bu i'r Cadeirydd ail arwyddo cofnodion cyfarfod 14/03/24 yn dilyn camgymeriad bach ym mharagraph dau.

**<u>Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill</u>**
Cadarnhawyd bod cofnodion 11/04/24 yn gywir gan y Cynghorydd Einir Lewis ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Tesni Jones.

**<u>Materion yn codi</u>**
Nid oedd unrhyw faterion newydd yn codi.

**<u>Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy</u>**
Nodwyd ein bod wedi cytuno i dalu'r yswiriant o £196.59c yn llawn ar Gae Chwarae, Rhydyclafdy. Ysgrifennwyd siec am y swm yn llawn, a bu i ddau Gynghorydd ei 'harwyddo, a cytunwyd y Cynghorydd Einir Lewis i'w danfon i Gartref Eleri Williams y noson honno.

**Gohebiaeth**

**Gosod Plac/Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**
Nodwyd bod y Clerc wedi cysylltu gyda Huw Elfed Roberts (Swyddog Etholiadol) 09/05/24 er mwyn ei holi am ffinoedd y ddau Gyngor Cymuned. Roedd HER i ffwrdd ar ei wyliau hyd at 13/05/24, ac yna bu i'r Clerc ei ebostio i ofyn y cwestiwn.

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Wynne Davies yn symud y garreg gilbost o'r cae i'r clawdd, er mwyn cael mynediad hawdd iddi.

Cytunwyd pawb yn y cyfarfod eu bod yn hapus i Iestyn Tyne ysgrifennu cwpled o'r newydd i gofio am yr Eisteddfod.

**Casglu Ysbwriel**
Nodwyd bod y sefyllfa o'r biniau ysbwriel yn cael eu cadw tu allan i dai ym Mhentre Rhydyclafdy am ddyddiau ar y tro, yn hytrach na'u cadw'n syth ar ôl eu casgliad wythnosol wedi gwella. Nodwyd CH ma'i dim ond un eiddo sy'n parhau i'w gadael tu allan.

**Ebost gan Glerc Cyngor Cymuned Garndolbenmaen – Chwilio am gefnogaeth parthed Cynllun Heddlu Ysgolion**
Bu i ni drafod cynnwys yr ebost hwn yng nghyfarfod Mis Ebrill, a chytunwyd i gefnogi'r cais. Bu i'r Clerc yrru ebost i Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor ar ran Cyngor Cymuned Buan. Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan LSR a MAG, cytunwyd i rannu'r ohebiaeth.

**Cais Cynllunio**
**Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio o'r newydd wedi dod gerbron y Pwyllgor.**

**Diweddariad Rhif Achos – G23/0281** – Sied fawr wedi cael ei chodi yn Yr Ynys, Boduan heb gais cynllunio. Nodwyd nad oes unrhyw ddiweddariad wedi ei dderbyn gan Aneurin Môn Parry o'r Tim Gorfodaeth.

Daeth consyrn arall i sylw'r Pwyllgor bod sì hefyd bod estyniad yn cael ei godi ar y dŷ "Yr Ynys", hefyd heb gais cynllunio. Cytunwyd i'r Clerc ddod a hyn i sylw AMP hefyd.

**Materion ariannol**
Cysoniad banc o ddyddiad:
04/03/24 – 03/04/24 - £6,627.34c
04/04/24 – 03/05/24 - £8,672.04c

Cafodd 6 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Tesni Jones.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200796 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yn Twnti | £20.00 |
| Siec Rhif 200797 | Cyflog y Clerc (Mis 2) | £153.60 |
| Siec Rhif 200798 | Costau teithio'r Clerc | £6.30 |
| Siec Rhif 200799 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 2) | £38.40 |
| Siec Rhif 200800 | Yswiriant Cae Chwarae Rhydyclafdy | £196.59 |
| Siec Rhif 200801 | Bacstal | £141.00 |

**Mantolen Cyngor Cymuned Buan 01/04/23-31/03/24**

Mae'r Clerc wedi cwblhau draft o fantolen "Cyngor Cymuned Buan" ar gyfer 01/04/23-31/03/24, bu i Gwmni Griffith Williams (Cyfrifwyr) fwrw golwg drosti a'i chywiro. Bu i'r Cynghorydd Dafydd LL Williams ei dangos i bawb oedd yn y cyfarfod, ac roedd pawb yn gytun â'r ffigyrau ar gyfer flwyddyn ariannol 2023/2024.

**Cysoniad Banc Mawrth 2024**

Bu i'r daenlen cysoniad banc ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/2024 gael ei rhannu hefo pawb hefyd, ac roedd pawb yn gytun gyda'r ffigyrau.

**Arwyddo ffurflen Lwfans Cynghorydd ar gyfer 2024/2025.**

Nodwyd bod Nia, Phil a Rhys angen arwyddo'r ffurflen yma yng nghyfarfod Mis Mehefin.

**Unrhyw fater arall**

Diolchwyd i DLLW am gwblhau'r ffurflen TAW mor sydyn ar gyfer ad-hawlio'r TAW yn ôl. Mae'r dogfennau erbyn hyn wedi cael eu 'harwyddo a'u gyrru.

Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i adrodd ar dwll yn y lôn tu allan i'r giât uchaf, Capel Rhydyclafdy.

Trafodwyd ail-leoli'r cyfarfod yma yng Nghapel Ceidio pe byddai Tu Hwnt i'r Afon yn cau ddiwedd mis Mai 2024. Mae'r Clerc wedi ffonio Gryffydd John i'w holi os oes posib hurio'r Capel.  Cytunwyd y byddai Nia yn gwneud trefniadau pellach.

Gan bod cyfrifon Cyngor Cymuned Buan wedi'w cwblhau erbyn hyn, gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu gyda Bleddyn Rhys (Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd) er mwyn ei hysbysu ein bod yn barod i gychwyn yr archwiliad.

Yn ystod ein cyfarfod heno fe etholwyd Hughie Williams yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Buan a Rhys Jones yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2024/2025.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 13/06/24 yn lleoliad i'w gadarnhau am 7.30yh.